

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

74/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

5 RHAGFYR 2017

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Cam 4, Tachwedd 2017

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 4, Tachwedd 2017

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, Adran: Adran Gwyddoniaeth,  
yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

Ebost: [robert.lewis@llyw.cymru](mailto:robert.lewis@llyw.cymru)

## Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL.....	3
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	5
4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN .....	7
5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR.....	11
6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR .....	13
7. TARDDIAD YMWELWYR .....	15
8. PROFFIDIOLDEB .....	17
9. RHWYSTRAU I LWYDDIANT A THWF BUSNESAU .....	20
10. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER 2018 .....	24

# 1. PRIF GANFYDDIADAU

## Blwyddyn gref ar gyfer y diwydiant twristiaeth

- 1.1 Mae 2017 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae oddeutu dau o bob pump (42%) o weithredwyr wedi cael mwy o ymwelwyr na'r llynedd, ac mae cyfran debyg (39%) wedi cael yr un lefel o ymwelwyr. Dim ond un o bob pump (20%) o weithredwyr sydd â lefel is.
- 1.2 Y sectorau cryfaf yw bwytai, tafarndai a chaffis (y mae gan 54% ohonynt lefel uwch), hostelau (y mae gan 52% ohonynt lefel uwch), ac atyniadau a darparwyr gweithgareddau (y mae gan 50% ohonynt lefel uwch).
- 1.3 Mae'r canlyniadau cadarnhaol eleni wedi'u hadlewyrchu ar draws Cymru gyfan, gyda gwahaniaethau bychain rhwng y pedwar rhanbarth.

## Hunanfarchnata'n peri llwyddiant

- 1.4 Ymddengys fod buddsoddi mewn hunanfarchnata'n sicrhau canlyniadau. Mae traean (33%) o'r rhai a gafodd mwy o ymwelwyr eleni'n crybwyll 'hunanfarchnata' fel rheswm allweddol – y rheswm mwyaf poblogaidd a roddwyd o bell ffordd.

## Marchnad y DU ar i fyny

- 1.5 Mae oddeutu dau o bob pump (39%) o weithredwyr yn dweud eu bod wedi derbyn mwy o ymwelwyr o'r DU y tu hwnt i Gymru eleni, ac mae hanner (49%) wedi derbyn yr un lefel. Credir bod gwerth gwan y bunt yn ffactor am fod gwyliau dramor wedi dod yn ddrytach ar gyfer pobl o Brydain sydd am fynd ar wyliau.

## Cost gynyddol cyfleustodau'n rhwystr sylweddol i dwf busnes

- 1.6 Ystyrir mai 'cost gynyddol cyfleustodau' yw'r rhwystr mwyaf i lwyddiant a thwf busnes. Mae gweithredwyr yn rhoi sgôr gyfartalog o 3.5 allan o 5 i'r elfen hon, a'r sgôr uchaf yw 5.
- 1.7 Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y rhwystrau a brofwyd yn yr ymchwil o ran sgôr gyfartalog gyffredinol, ond mae'r canlyniadau'n amrywio fesul sector. Mae gweithredwyr hunanarlwyo yn poeni fwyaf am gystadleuaeth gynyddol (cyfartaledd o 3.6). Ar gyfer bwytai, tafarndai a chaffis, cost gynyddol bwyd a diod yw'r rhwystr pennaf (cyfartaledd o 4.1). Mae atyniadau'n cael eu heffeithio'n arbennig gan adnoddau sector cyhoeddus prin os ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus, sy'n wir am rai ohonynt.

## Disgwyliadau uchel iawn ar gyfer 2018

- 1.8 Ar ôl blwyddyn gref, mae'r disgwyliadau ar gyfer 2018 yn uchel. Mae oddeutu hanner (48%) o weithredwyr yn disgwyl mwy o ymwelwyr y flwyddyn nesaf, ac mae 45% arall yn disgwyl yr un lefel.

## 2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

2.1 Rydym wedi cynnal cyfweiliadau manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrrff amrywiol ledled Cymru.

2.2 Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

### **Twristiaeth yn parhau i berfformio'n dda, gan adeiladu ar lwyddiannau blynyddoedd blaenorol**

2.3 Mae arweinwyr yn y diwydiant yn teimlo bod y diwydiant twristiaeth wedi perfformio'n dda hyd yn hyn yn 2018, yn dilyn llwyddiant blynyddoedd blaenorol.

*"Mae fy aelodau'n dweud wrthyf ei bod wedi bod yn flwyddyn dda ar y cyfan. Mae'n ymddangos ei bod wedi bod yn flwyddyn brysurach na'r llynedd, ac roedd y llynedd yn dda."*

*"Mae niferoedd yr ymwelwyr wedi codi ers y llynedd. Rydym yn falch o'r ffordd mae pethau wedi mynd."*

2.4 Mae'r duedd hon wedi parhau hyd at yr hanner tymor diweddar. Mae arweinwyr yn y diwydiant wedi derbyn gwybodaeth anecdotaidd gan aelodau i'w hysbysu ynghylch perfformiad cadarnhaol arall.

*"Mae fy aelodau'n dweud wrthyf fod yr hanner tymor hwn wedi bod yn eithaf da."*

*"Roedd yn hanner tymor da – dydyn ni ddim yn gwybod pam yn hollol, ond mae niferoedd yr ymwelwyr yn ymddangos yn dda."*

### **Mae twristiaeth yn parhau'n gryf, ond mae nifer yn gochel rhag heriau'r dyfodol**

2.5 Mae arweinwyr yn y diwydiant yn aml yn sôn am wydnwch y sector twristiaeth a'i allu i addasu. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus y gallant orchfygu unrhyw heriau yn y dyfodol, ond maent yn gochel rhag yr ansicrwydd y gall Brexit ei gyflwyno.

*"Mae gennym bryderon wrth symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Cadw staff sy'n ddinasyddion Ewropeaidd, cost gynyddol nwyddau ac ati. Fodd bynnag, rydym yn sector gwydn sydd wedi'i hen sefydlu, felly rwy'n credu y gallwn orchfygu'r rhan fwyaf o heriau."*

*"Rydym yn obeithiol ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd goblygiadau Brexit mewn gwirionedd. Na gyd y gallwn ei wneud yw parhau i ddarparu ar gyfer ein twristiaid orau y medrwn, ac mae popeth ehangach y tu hwnt i'n rheolaeth."*

- 2.6 Mae un gymdeithas yn nodi bod ei haelodau eisoes wedi gorfod gwneud rhai newidiadau yn sgil effaith Brexit.

*"Mae busnesau'n dechrau newid prisiau ar eu bwydlenni. Rhywbeth maen nhw wedi sôn amdano ers meitin, ond bellach maen nhw'n ei wneud."*

### **Pryder ynghylch 'treth ymwelwyr' bosibl**

- 2.7 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn y diwydiant yn crybwyll y dreth ymwelwyr – heb anogaeth – fel testun pryder. Er eu bod yn deall y bydd y gost i bob ymwelydd yn finimol, maent yn ofni y bydd Cymru'n ymddangos yn ddigroeso ac 'ar gau i fusnes'.

*"Os yw'n bunt y noson yn ychwanegol, neu beth bynnag, dyw e ddim yn rhyw lawer ond mae jest yn edrych fel pe bai Cymru ar gau, fel bo ni ddim moyn ymwelwyr ac fel bo ni'n anghyfeillgar."*

*"Y broblem yw'r ffordd mae'n gwneud i Gymru edrych – fel bo ni ddim am i dwristiaid ddod yma."*

### **Cynnydd parhaus mewn trefniadau trwy asiantaethau teithio ar-lein**

- 2.8 Mae rhai arweinwyr yn y diwydiant yn nodi bod trefniadau trwy asiantaethau teithio ar-lein yn parhau i godi, yn arbennig trefniadau munud olaf trwy'r dulliau hyn. Mae ffawd darparwyr llety wedi newid yn gyflym iawn; lle'r oeddent yn poeni am ystafelloedd gwag, maent bellach yn eu llenwi'n gyflym iawn.

*"Er ei bod wedi bod yn brysur, dydyn ni ddim o reidrwydd yn ei ddisgwyl tan y funud olaf achos mae llawer o bobl yn bwcio ar-lein, ac ar y funud olaf un. Dyna'r duedd heddiw i bob golwg."*

- 2.9 Mae un arweinydd yn y diwydiant hyd yn oed yn teimlo, pan fo canlyniadau wedi amrywio, bod hyn yn rhannol yn ymwneud â ph'un a yw darparwr llety wedi cofrestru ar gyfer ac yn gwneud y defnydd gorau o asiantaethau teithio ar-lein.

*"Rwy'n credu mai dyma'r rheswm yn rhannol pam mae perfformiad wedi bod yn afreolaidd. Mae'r rhai sydd ddim yn defnyddio asiantaethau teithio ar-lein yn colli allan a dydw i ddim yn credu eu bod nhw'n rheoli eu system fwcio'n dda iawn."*

### 3. CEFNIDIR A METHODOLEG

#### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r don ymchwil hon yn ymwneud â hanner tymor mis Hydref 2017, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer 2018.

#### Sut y cynhelir yr arolwg?

- 3.3 Mae'r arolwg hwn ar gael i'w lenwi ar-lein fel dewis arall yn lle ffonio, a oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.
- 3.4 Rydym wedi cynnal 800 o gyfweiliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddisbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi rhoi 73 ymateb ychwanegol. Mae'r sampl gyfan o 873 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i  $\pm 3.3\%$ .
- 3.5 Mae'r sampl o 873 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	103	51	76	65	<b>295</b>
Llety hunanarlwyo	103	52	93	38	<b>286</b>
Meysydd carafanau/pebyll	40	17	17	5	<b>79</b>
Hostelau	10	8	7	7	<b>32</b>
Atyniadau	31	12	17	28	<b>88</b>
Bwytai / tafarndai / caffis	11	13	5	13	<b>42</b>
Gweithredwyr gweithgareddau	16	9	16	10	<b>51</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>314</b>	<b>162</b>	<b>231</b>	<b>166</b>	<b>873</b>

- 3.6 Mae oddeutu dau draean (68%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 32% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw

graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).


- 3.7 Mae pob cyfweiliad dros y ffôn wedi ei gynnal â pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Tachwedd. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

<b>Cam</b>	<b>Enw'r cam</b>	<b>Cyfnod amser</b>
Cam 1, 2016	Y Pasg	26 Mawrth tan 10 Ebrill
Cam 2, 2016	Hanner tymor mis Mai	28 Mai tan 5 Mehefin
Cam 3, 2016	Yr haf	Mis Mehefin i fis Awst
Cam 4, 2016	Yr hydref	Mis Medi tan ddechrau mis Tachwedd
Cam 1, 2017	Y Pasg	8 Ebrill tan 23 Ebrill
Cam 2, 2017	Hanner tymor Mai/Mehefin	27 Mai tan 4 Mehefin
Cam 3, 2017	Yr haf	Mis Mehefin i fis Awst
Cam 4, 2017	Yr hydref	Mis Medi tan ddechrau mis Tachwedd



## 4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN

### PERFFORMIAD FESUL SECTOR



#### Sector twristiaeth sy'n perfformio'n gryf

4.1 Gall diwydiant twristiaeth Cymru edrych yn ôl ar 2017 ag ymdeimlad o hyder ar ôl blwyddyn dda. Yn gyffredinol, mae 42% o fusnesau wedi profi cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr o gymharu â 2016, gyda 39% pellach yn cynnal lefelau tebyg.

#### Llwyddiannau blasus yn 2017

4.2 Mae manau bwyta'n gwneud yn arbennig o dda eleni, gyda mwy na hanner (54%) yn bwydo mwy o bobl hyd yn hyn yn 2017 nag y gwnaethant y llynedd.

*"Wedi codi 14% o gymharu â'r un amser y llynedd"*

*"Mae'r pum mis diwethaf wedi mynd y tu hwnt i'm disgwyliau"*

#### Ymwelwyr yn heidio i hostelau

4.3 Mae oddeutu hanner (52%) yr hostelau sydd wedi ateb yn nodi eu bod wedi bod yn derbyn mwy o ymwelwyr eleni o gymharu â 2016. Mae'r cynnydd mewn ymwelwyr o'r DU nad ydynt yn Gymry'n cyfrannu at hyn, gyda 43% yn adrodd am gynnydd o'r farchnad hon.

*"Mae ein prif gwsmeriaid yn dod o Lundain / de Lloegr"*

*"Ymwelwyr o Brydain ar y cyfan"*

## **Hunanfarchnata'n rhoi hwb i atyniadau**

- 4.4 Gyda hanner (50%) o atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau'n croesawu mwy o ymwelwyr, mae 2017 wedi bod yn flwyddyn dda hyd yn hyn. Ac o'r sawl a nododd gynnydd, mae 46% yn dweud bod eu hunanfarchnata wedi helpu'r cynnydd hwnnw mewn niferoedd.

*"Rydyn ni wedi rhoi mwy o ymdrech o lawer i'r wefan ac i hyrwyddo'r busnes felly"*

## **Mwy o ymwelwyr yn trefnu llety â gwasanaeth**

- 4.5 Mae oddeutu dau o bob pump (42%) o weithredwyr llety â gwasanaeth yn dweud bod 2017 wedi dod â mwy o ymwelwyr i'w hystafelloedd.
- 4.6 O'r sawl sydd wedi gweld cynnydd, mae 31% yn dweud bod eu hunanfarchnata wedi helpu, ac mae 25% yn dweud eu bod wedi sylwi ar gynnydd cyffredinol mewn twristiaeth yn eu hardal.

## **Gwersylla yng Ngwalia**

- 4.7 Mae cyfran dda (41%) o weithredwyr meysydd carafannau a phebyll yn dweud eu bod wedi croesawu mwy o bobl i'w safleoedd eleni o gymharu â 2016.


*"Rydyn ni wedi gwella pethau yma ac wedi cynyddu o naid i naid gyda'n hunanfarchnata"*

## **Hunanarlwyo**

- 4.8 Er bod 43% o weithredwyr hunanarlwyo wedi croesawu nifer debyg o ymwelwyr o gymharu â'r llynedd, mae oddeutu traean (35%) yn dweud eu bod wedi derbyn mwy o archebion.

*"Yn ystod misoedd hwyrach yr haf (mis Awst a Medi), roedd mwy o ymwelwyr na'r flwyddyn flaenorol i bob golwg"*

## TUEDD O RAN PERFFORMIAD




### Y diwydiant twristiaeth yn cynnal cysondeb

- 4.9 Ymddengys fod twf gweddol gyson wedi bod yn y diwydiant twristiaeth yn ystod y blynyddoedd diweddar. Wrth i 2017 ddirwyn i ben, nid yw'r flwyddyn wedi bod yn dra gwahanol i ddiwedd 2016.
- 4.10 Trwy'r sylwadau agored, mae rhai busnesau'n dweud eu bod wedi cynnal lefelau tebyg o ymwelwyr yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

*"Rydyn ni wedi bod yn gwneud yn dda yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf"*  
Llety hunanarlwyo

*"Rydyn ni wedi tueddu i aros ar yr un lefel ar gyfer y ddwy i dair blynedd ddiwethaf"*  
Llety â gwasanaeth


## PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH



### Cysondeb ledled Cymru

4.11 Mae Cymru gyfan wedi gweld twf da hyd yn hyn eleni, gydag ychydig o wahaniaeth rhwng y pedwar rhanbarth.

## 5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR



### Mae marchnata'n gweithio

5.1 O'r gweithredwyr sydd wedi croesawu mwy o ymwelwyr hyd yn hyn eleni, mae traean (33%) yn dweud bod eu dulliau hunanfarchnata wedi cyfrannu at y cynnydd. Mae hyn yn cynnwys marchnata trwy'r cyfryngau cymdeithasol, datblygu gwefan a gwella hysbysebion.

*"Rydyn ni'n hyrwyddo'r busnes yn fwy ar Facebook ac wedi gweld cynnydd mewn archebion trwy hynny"*  
Llety hunanarlwyo

*"Rydyn ni wedi rhoi mwy o ymdrech o lawer i'n dulliau hunanfarchnata"*  
Llety â gwasanaeth

*"Rydyn ni'n gwneud ein marchnata ar-lein ein hunain i ddenu ymwelwyr o dramor"*  
Llety hunanarlwyo

## **Ymwelwyr y DU yn cymryd gwyliau gartref**

5.2 Mae sawl ffactor yn cyfrannu at 18% o weithredwyr yn y DU yn croesawu mwy o bobl Brydeinig. Trwy'r sylwadau agored, credir bod hyn yn cynnwys dibrisiad sterling, gan olygu bod teithio dramor yn ddrytach, a bygythiadau terfysgol, gan ddychryn pobl rhag teithio.


*"Mae'r cynnydd wedi dod o'r DU – de'r wlad yn benodol"*

Llety hunanarlwyo

*"Efallai bod mwy o bobl yn aros gartref oherwydd Brexit a bygythiad terfysgaeth"*

Llety hunanarlwyo

## 6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR



### Ansicrwydd yn parhau ynghylch lleihad mewn niferoedd

6.1 Yng nghamau diweddar yr adroddiad hwn, mae nifer o weithredwyr yn dweud eu bod yn pallu egluro pam mae niferoedd eu hymwelwyr wedi disgyn – ac yr hydref hwn, mae'r cwestiwn yn parhau.

*"Dydyn ni ddim yn gwybod pam rydyn ni wedi cael llai o westeion eleni"*  
Llety hunanarlwyo

*"Dw i ddim wir yn gwybod pam dw i wedi cael y fath leihad mewn ymwelwyr. Dw i wedi bod yn hysbysebu cymaint ag erioed."*  
Llety hunanarlwyo

### Costau sy'n cynyddu'n araf yn destun pryder

6.2 Trwy'r sylwadau agored, mae gweithredwyr wedi lleisio pryder ynghylch y costau cynyddol sy'n eu hwynebu. Mae rhai'n dweud eu bod yn methu â pheidio â throsglwyddo'r rhain i'w hymwelwyr heb golli allan yn ariannol.

*"Mae costau'n cynyddu drwy'r amser – mae'n ei gwneud yn anoddach i wneud elw"*  
Llety hunanarlwyo

*"Oherwydd costau cynyddol, ac economi sydd ddim yn fywiog iawn, dydyn ni ddim wedi gallu codi prisiau i wrthbwysu hynny"*  
Llety â gwasanaeth

*"Cynllun pensiwn, isafswm cyflog, costau bwyd a diod ... bu'n rhaid i mi gael benthyciad ddoe i dalu'r cyflogau"*

**Cynnydd mewn arosiadau byrrach**


- 6.3 Mae rhai gweithredwyr wedi sylwi bod ymwelwyr yn aros am gyfnodau byrrach. Bellach mae'n fwy cyffredin i arhosiad wythnos i ddisgyn i bedwar neu bum niwrnod wrth i bobl chwilio am ffyrdd o leihau eu gwario.

*"Dyw pobl ddim yn bwcio wythnosau llawn bellach. Maen nhw'n aros am 4–5 niwrnod yn lle, sy'n golygu bod gan fy nglanhawyr fwy o waith yn glanhau a pharatoi bwciadau."*

Llety hunanarlwyo



## 7. TARDDIAD YMWELWYR



### Hwb calonogol o ran ymwelwyr o'r DU

- 7.1 Fel y nodwyd ynghynt yn yr adroddiad hwn, mae rhai gweithredwyr wedi sylwi ar fwy o bobl Brydeinig yn mwynhau gwyliau ac arosiadau byr yng Nghymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y siart uchod, sy'n dangos bod dau o bob pump (39%) o weithredwyr wedi croesawu mwy o ymwelwyr o'r DU nad ydynt yn Gymru eleni.
- 7.2 Mae hyn yn cynnwys bron hanner yr holl atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau (48%), mannau bwyta (48%), a hostelau (43%), ond dim ond traean (34%) o weithredwyr hunanarlwyo.

*"Gwnaethom ni sylwi bod y farchnad Brydeinig wedi cynyddu yn 2017"*  
Hostel

- 7.3 Mae bron hanner (46%) y gweithredwyr yng nghanolbarth Cymru wedi gweld cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru – sy'n uwch na rhanbarthau eraill Cymru.

### Gwerth is sterling yn gwneud Cymru'n gyrchfan atyniadol i Ewropeaid

- 7.4 Mae amrywiadau ariannol wedi golygu gostyngiad yng ngwerth sterling yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae hyn wedi cyfrannu nid yn unig at fwy o ymwelwyr o'r DU yn cymryd gwyliau gartref, ond hefyd mae wedi golygu bod y wlad yn cynnig gwell gwerth am arian i Ewropeaid. Mae tri o bob deg (29%) o weithredwyr yn croesawu mwy o Almaenwyr, ac mae 33% yn gweld mwy o ymwelwyr o wledydd Ewropeaidd eraill.

*"Rydyn ni wedi derbyn llawer mwy o westeion o Ewrop oherwydd gwendid y bunt"*  
Llety â gwasanaeth

*"Rydyn ni wedi cael mwy o ymwelwyr o'r Almaen a Ffrainc yn arbennig. Mae'r gyfradd gyfnewid yn dda ar eu cyfer nhw am fod y bunt yn wan ar hyn o bryd o'i chymharu â'r ewro."*  
Llety hunanarlwyo

*"Llawer o fusnes dychwel yn bennaf gan ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru, a'r Almaen"*  
Llety hunanarlwyo


### **Cynnydd mwyaf mewn ymwelwyr o Weriniaeth Iwerddon yn ne-ddwyrain Cymru**

7.5 Mae chwarter (25%) o weithredwyr yn ne-ddwyrain Cymru wedi croesawu mwy o ymwelwyr o Weriniaeth Iwerddon eleni, sy'n cymharu ag 11% o weithredwyr yng ngweddill Cymru. Mae'r cynnydd hwn o 11% a adroddir gan weithredwyr yn golygu mai hon yw'r farchnad arafaf ei pherfformiad.

### **Cynnydd llai o'r farchnad ddomestig**

7.6 Nid yw cyfran y gweithredwyr sy'n gweld cynnydd mewn ymwelwyr o farchnad Cymru mor gryf â marchnadoedd eraill. Yn gyffredinol, mae 18% wedi croesawu mwy o ymwelwyr o Gymru, gyda bwytai, tafarndai a chaffis yn gweld canlyniadau gwell (34%) o gymharu â sectorau eraill, sy'n cynnwys 14% o weithredwyr hunanarlwyo.

## 8. PROFFIDIOLDEB



### Cynnydd cymedrol mewn proffidioldeb

8.1 Gyda 42% o weithredwyr yn nodi niferoedd ymwelwyr uwch, calonogol yw gweld cyfran debyg (39%) yn profi cynnydd mewn proffidioldeb.

*"Rydyn ni'n derbyn mwy o westeion, felly mae proffidioldeb ar i fyny"*  
Hostel

8.2 Er bod y cynnydd hwn mewn proffidioldeb yn rhannol yn adlewyrchiad o'r cynnydd mewn ymwelwyr, mae rhai busnesau'n gweithio'n galed i wella ac ymestyn yr hyn maent yn ei gynnig a lleihau costau i godi eu helw.

*"Rydyn ni ar agor yn fwy ac rydyn ni wedi bod yn gweithio i leihau gwariant y gyllideb, felly rydyn ni wedi gweld cynnydd bach mewn elw"*  
Atyniad

### Cynnydd mewn costau'n effeithio ar rai gweithredwyr

8.3 Mae costau gweithredu cynyddol, gan gynnwys cyflogau a chyfraddau busnes, yn cael effaith ar broffidioldeb ar gyfer rhai gweithredwyr.


*"Rydyn ni wedi profi lleihad mewn elw oherwydd costau. Mae'n costio cymaint yn fwy i weithredu'r busnes."*  
Llety hunanarlwyo

*"Mae cyfraddau busnes yn codi ac yn llyncu ein helw"*  
Llety â gwasanaeth

## **Cynnydd mewn ymwelwyr wedi'i adlewyrchu mewn proffidioldeb, yn gyffredinol**

- 8.4 Mae sectorau sy'n adrodd am fwy o ymwelwyr eleni'n mwynhau codiad mewn proffidioldeb sy'n adlewyrchu'r cynnydd hwn.
- 8.5 Ar gyfer bwytaï, tafarndai a chaffis, mae 54% wedi croesawu mwy o ymwelwyr ac mae 55% yn adrodd proffidioldeb uwch wrth i ymwelwyr gladdu eu bwyd a diod o Gymru.
- 8.6 Ar gyfer yr holl sectorau eraill, mae cyfran y gweithredwyr sy'n adrodd am broffidioldeb gwell ychydig yn llai na'r gyfran â niferoedd ymwelwyr uwch.
- 8.7 Er bod 52% o hostelau wedi derbyn mwy o ymwelwyr, mae 46% wedi profi proffidioldeb uwch.
- 8.8 Mae hanner (50%) o'r gweithredwyr gweithgareddau a atebodd wedi derbyn mwy o ymwelwyr, 46% yn fwy o broffidioldeb.
- 8.9 Mae'r patrwm yn debyg ar gyfer yr holl sectorau sy'n weddill, gyda gweithredwyr hunanarlwyo'n cofnodi'r cynnydd isaf mewn niferoedd ymwelwyr (35%) a phroffidioldeb (30%).

## TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB




### Ychydig o gynnydd mewn proffidioldeb

8.10 Wrth i 2017 ddirwyn i ben, mae'r flwyddyn wedi darparu cynnydd cymedrol mewn proffidioldeb yn ystod yr ychydig gamau diwethaf.

8.11 Ar hyn o bryd, mae 39% yn nodi mwy o elw hyd yn hyn eleni, sy'n gyfwerth â'r adeg hon yn 2016.

## 9. RHWYSTRAU I LWYDDIANT A THWF BUSNESAU



Gofynnwyd i ymatebwyr ddsbarthu pob ffactor ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn cynrychioli dim rhwystr o gwbl a 5 yn cynrychioli rhwystr sylweddol. Mae'r siart uchod yn dangos yr ymateb cymedrig i bob ffactor.

### Cost gynyddol cyfleustodau yw'r rhwystr mwyaf sylweddol

9.1 O'r holl ffactorau a allai fod yn rhwystr i lwyddiant a thwf busnes, dyfarnwyd mai cost gynyddol cyfleustodau yw'r ffactor mwyaf sylweddol, gyda sgôr gyfartalog o 3.5 allan o 5.

*"Mae fy miliau cyfleustodau'n eithaf sylweddol. Eleni mae'n mynd braidd yn rhy uchel a dw i wir ddim am godi fy mhrisiau."*

Llety hunanarlwyo

9.2 Ar gyfer bwytai, tafarndai a chaffis, mae hyn yn fwy o rwystr nag ar gyfer sectorau eraill, gyda sgôr gyfartalog o 4. Mae hyn yn cynnwys 44% o'r gweithredwyr hyn yn rhoi sgôr o 5.

### Pryderon ynghylch yr economi

9.3 Gyda Brexit ar feddyliau sawl un, y cwmp yng ngwerth sterling a phobl yn gwario llai, mae 'amodau economaidd cyffredinol' yn ennill dyfarniad cyfartalog o 3.4 allan o 5 fel rhwystr.

9.4 Yn benodol, mae hostelau'n rhoi 3.6 i'r economi, fel y mae bwytai, tafarndai a chaffis.

*"Gyda Brexit a llai o incwm ar gael, mae pobl yn stopio gwario a theithio"*  
Hostel

*"Ansicrwydd yn yr economi ar hyn o bryd. Mae popeth ar chwâl oherwydd Brexit."*  
Llety hunanarlwyo

*"Mae cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch Brexit a does gan bobl mo'r un hyder yn yr economi, felly fyddan nhw ddim yn gwario cymaint."*  
Llety hunanarlwyo

### **Cyllidebau tynn y sector cyhoeddus yn effeithio ar hostelau**

9.5 Rhoddwyd dyfarniad o 3.4 allan o 5 i 'adnoddau tynn y sector cyhoeddus ar gyfer twristiaeth' fel rhwystr. Gyda'r sector cyhoeddus yn wynebu amseroedd blin wrth i gyllidebau gael eu tynhau, mae rhai'n ystyried hyn yn rhwystr sylweddol i allu eu busnes eu hunain i dyfu a llwyddo ymhellach. Mae hostelau'n arbennig yn ystyried hyn yn rhwystr, gyda 57% yn rhoi'r sgôr uchaf o 5.

9.6 Caiff y sector atyniadau (a roddodd sgôr gyfartalog o 3.6) ei effeithio am fod nifer o weithrediadau'n fentrau a ariennir yn gyhoeddus yn hytrach na mentrau masnachol.

*"Does dim arian ar gael yn y sector cyhoeddus; mae diffyg adnoddau ym mhobman."*  
Atyniad

*"Ein prif rwystr yw cyllid llywodraeth leol. Mae'n mynd yn llai ac yn llai, ac os byddan nhw'n parhau i dorri'r cyllid, bydd yn rhaid i ni gau."*  
Atyniad

### **Rheoliadau busnes newydd**

9.7 Mae deall ac aros yn gyfredol â newidiadau mewn rheoliadau busnes yn rhwystr i dwf busnes i rai, gyda dyfarniad cyfartalog o 3.3 allan o 5.

*"Newidiadau mewn rheoliadau busnes yw'r rhwystr mwyaf i dwf busnesau llai"*  
Llety â gwasanaeth

*"Tâp coch anghymesur ar gyfer busnesau bach – wastad rhywbeth i'w wneud, wastad angen cyflawni rhyw ofyniad neu'i gilydd."*  
Llety â gwasanaeth

### **Gall cystadleuaeth fod yn anodd**

9.8 Er bod cystadleuaeth yn gallu bod yn iach, ac yn bendant o fudd i ddefnyddwyr, gall fod yn anodd hefyd i weithredwyr sy'n ceisio ennill busnes os oes nifer o ddewisiadau eraill ar gyfer gwsteion posibl.

9.9 Yn gyffredinol, mae gweithredwyr hunanarlwyo'n ystyried cystadleuaeth gynyddol yn rhwystr, gan roi dyfarniad cyfartalog o 3.6 iddi.

*"Cystadleuaeth uchel yn yr ardal"*  
Llety hunanarlwyo

*"Cystadleuaeth gynyddol – ysbryd cystadlu cryfach a rhyfeloedd prisiau"*  
Hostel

*"Gormod o gystadleuaeth gan gadwyni – mae pobl heddiw'n ddigon bodlon aros lle mae'r pris gorau"*  
Llety â gwasanaeth

### **Prisiau bwyd yn llyncu elw**

9.10 Nid yw'n syndod mai'r bwytai, tafarndai a chaffis sy'n ystyried costau cynyddol bwyd a diod yn rhwystr i dwf a llwyddiant. Eu sgôr gyfartalog yw 4.1, gyda 49% yn y sector hwn yn rhoi'r dyfarniad uchaf o 5.

*"Cynnydd mewn costau cyfanwerthu cynhyrchion crai"*  
Bwyty

### **Dod o hyd i staff medrus yn anoddaf i fannau bwyd**

9.11 Wrth drafod anawsterau o ran recriwtio neu gadw staff medrus, y bwytai, tafarndai a chaffis sy'n ystyried hyn y rhwystr pennaf, gan roi dyfarniad o 3.6 o gymharu â'r sgôr gyfartalog o 3.2 ar draws yr holl sectorau. Mae llety â gwasanaeth (3.4) a hostelau (3.3) yn dilyn manau bwyd yn agos.

*"Rydyn ni'n cael problemau wrth ddod o hyd i staff, yn arbennig cogyddion"*  
Bwyty

*"Mae'n anodd iawn dod o hyd i staff a fydd yn aros yn y diwydiant lletygarwch"*  
Llety â gwasanaeth

9.12 Mae dod o hyd i staff yn anoddach yng ngogledd Cymru, gyda gweithredwyr yn y rhanbarth hwn yn rhoi dyfarniad o 3.3 – sgôr sy'n uwch nag yn y tri rhanbarth arall.

### **Hel borgen**

9.13 Gyda nifer o lygaid ar yr economi, mae ymwelwyr a gweithredwyr ill dau'n gofalu am eu treuliau. Ar gyfer ymwelwyr, mae hyn yn aml yn golygu lleihau cyfanswm maent yn ei wario a hel bargeinion, sy'n cael dyfarniad o 3.2 allan o 5 yn gyffredinol. Ond mae gweithredwyr yn gyndyn o ildio ar bris am fod yn rhaid iddynt fwy na thalu eu costau.

*"Mae pobl bendant yn gofyn ar-lein am ostyngiadau am aros sawl noson, ond rydyn ni'n dal i orfod talu costau'r tîm glanhau a'r gwres"*  
Llety hunanarlwyo



## **Cyfraddau cyfnewid yn gleddyf daufiniog**

- 9.14 Ystyrir bod ansefydlogrwydd sterling a chyfraddau cyfnewid yn gyfystyr â 3.1 allan o 5. Mae gwerth is sterling wedi cynyddu'r nifer o wyliau gartref ac wedi gwneud Cymru'n gyrchfan ratach i rai ymwelwyr o dramor. Ond mae hefyd yn golygu bod rhai costau wedi cynyddu i weithredwyr.
- 9.15 Gyda'r DU a'r UE yng nghanol trafodaethau Brexit, mae'n aneglur sut y bydd sterling yn perfformio yn y dyfodol agos.

## **Trydydd partiön yn cymryd cyfran**

- 9.16 O gymharu â sectorau eraill, mae llety â gwasanaeth yn ystyried bod 'mwy o gwsmeriaid yn trefnu gwyliau trwy safleoedd ar-lein neu drydydd parti' yn rhwystr (3.4 ar gyfartaledd). Mae traean (32%) o weithredwyr llety â gwasanaeth yn rhoi dyfarniad o 5 i'r rhwystr hwn.
- 9.17 Er bod y safleoedd hyn yn helpu i ddenu archebion, mae gweithredwyr trydydd parti'n cymryd canran eithaf sylweddol o'r gwerthiant. Mae hyn yn rhoi gweithredwyr mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt benderfynu p'un ai cyfnewid maint am nifer. Mae rhai sy'n cofrestru â safleoedd trydydd parti'n gwneud hynny o'u hanfodd.


*"Mae'r comisiwn yn rhy uchel o lawer ar y gwahanol safleoedd bwcio trydydd parti"*  
Llety hunanarlwyo

*"Rwy'n credu bod booking.com yn amlwg iawn ac, yn groes i'r graen, rwy wedi cofrestru â nhw – maen nhw'n cymryd elw ac rwy'n gweithio'n galed ar gyfer fy elw"*  
Llety â gwasanaeth

*"Mae safleoedd bwcio'n hynod gyfleus, ac yn ôl pob golwg dyna sut mae pobl yn hoffi trefnu arhosiad nawr, ond mae'r comisiwn mae'r safle'n ei gymryd yn hurt"*  
Llety â gwasanaeth

## 10. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER 2018

### DISGWYLIADAU FESUL SECTOR



Maint y sampl: 729

#### Disgwyliadau uchel ar gyfer gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety

10.1 Mae'r dyfodol yn ddisglair ar gyfer gweithredwyr wrth ddechrau 2018, gyda disgwyliadau o gynnydd mewn niferoedd ymwelwyr. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer manau bwyd, atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau.


*"Rydyn ni wedi derbyn mwy o fwciadau ymlaen llawn ar gyfer 2018 na 2017"*  
Gweithredwr gweithgareddau

*"Mae pobl wedi bwcio ymlaen llaw gyda ni'n barod ar gyfer gwyliau 2018"*  
Bwyty

#### Dylai pethau barhau i wella ar gyfer y sector llety

10.2 Mae gweithredwyr llety hefyd yn edrych at 2018 gyda disgwyliadau o gynnydd mewn niferoedd ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys oddeutu hanner (52%) o feysydd carafannau a phebyll, 46% o weithredwyr llety â gwasanaeth, 43% o hostelau, a 39% o weithredwyr hunanarlwyo.

## HYDER FESUL SECTOR



### Diwydiant yn dal i fod yn hyderus

10.3 Ar ôl blwyddyn gref, mae'r mwyafrif (83%) o weithredwyr yn mynd i 2018 â hyder. Er calondid, mae nifer o weithredwyr yn buddsoddi yn eu busnes i wella'r hyn maent yn ei gynnig. Mae buddsoddi amser, arian ac ymdrech i fusnesau'n helpu lefelau hyder o ran eu perfformiad.

*"Teimlo'n obeithiol iawn am 2018. Rydyn ni wedi rhoi amser ac ymdrech, ac mae'n dwyn ffrwyth."*  
Atyniad

*"Rydyn ni ailwampio ac yn gwneud peth gwaith. Dylai hyn ddenu ychydig yn fwy o westeion y flwyddyn nesaf."*  
Atyniad

*"Mae gennym ni gryn dipyn o waith ailwampio i'w wneud y flwyddyn nesaf felly rydyn ni'n paratoi i wario mwy na rydyn ni'n ei ennill, ond bydd yn fuddsoddiad."*  
Llety hunanarlwyo

*"Rydyn ni'n gobeithio ychwanegu at y cyfleusterau sydd gennym a'u gwella"*  
Hostel

## **Gobeithion mawr ar gyfer Blwyddyn y Môr**

10.4 Yn 2018, mae Cymru'n dathlu ei morlin rhagorol trwy flwyddyn thematig *Blwyddyn y Môr*, sy'n cynnwys digwyddiadau ac atyniadau arbennig drwy gydol y flwyddyn. Trwy'r sylwadau agored, mae rhai gweithredwyr yn edrych ymlaen at yr effaith gadarnhaol bydd hyn yn ei chael ar eu busnes.

*"Gobeithio y bydd Blwyddyn y Môr yn dod ag ymwelwyr, cyhoedduswydd a digwyddiadau i Sir Benfro"*  
Atyniad

*"Rydyn ni'n gobeithio manteisio ar Flwyddyn y Môr"*  
Gweithredwr gweithgareddau

*"Rydyn ni'n disgwyl derbyn mwy o ymwelwyr i'r ardal am ei bod yn Flwyddyn y Môr"*  
Atyniad

## **Brexit yn parhau i fod yn anhysbys**

10.5 Pleidleisiodd y DU dros adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016. Nid ydym wedi gweld effeithiau llawn Brexit eto, wrth i drafodaethau rhwng y DU a'r UE barhau. Mae peidio â gwybod pa effaith – a maint yr effaith honno – y bydd Brexit yn ei chael ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru'n parhau i adael rhai gweithredwyr heb yr hyder y byddent wedi meddu arno fel arall.

*"Byddai'n wych pe baen nhw'n gallu datrys Brexit. Does neb yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd."*  
Atyniad


*"Mae popeth yn dibynnu ar Brexit. Mae'n bwnc trafod mawr ymhlith ein gwesteion. Does neb yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd."*  
Llety â gwasanaeth

*"Mae popeth mor ansicr oherwydd Brexit. Does neb yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd."*  
Llety hunanarlwyo

## **Y de-orllewin yn dangos yr hyder mwyaf**

10.6 Mae cyfran uwch (32%) o weithredwyr yn ne-orllewin Cymru'n dweud eu bod yn 'hyderus iawn', o gymharu â rhanbarthau eraill.

## TUEDD MEWN HYDER



### Hyder yn dal ei dir yn dda

10.7 Mae'n galonogol gweld bod lefelau hyder yn parhau i fod yn gadarnhaol wrth ddynesu at 2018. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae hyder wedi bod yn gyson dda, gyda'r lleiafrif yn brin o'r agwedd gadarnhaol sydd gan eraill yn y diwydiant.